Y DINESYDD

Mehefin 2016 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 408 £1

Sychder Anweledig Lesotho

Mae Lesotho yn dioddef o effaith misoedd o brinder glaw a'r sychder gwaethaf mewn deugain mlynedd. Fe wnaeth y darlledwr Gari Owen raglen am y drychineb i S4C a ddarlledwyd ym mis Mai.

parhad ar dud. 2

Logo Dolen Cymru

Gari Owen yn siarad gyda phlant yn Lesotho

Field

Dyma'r olygfa drawiadol sydd i'w gweld y tu fas i Ganolfan Mileniwm Cymru ar hyn o bryd. Arddangosfa o waith celf o'r enw 'Field' yw hon, a agorwyd gan Opera Cenedlaethol Cymru nos Wener, 13 Mai, ar ôl *première* byd yr opera newydd, *In Parenthesis,* i gofláu Brwydr y Somme gan mlynedd yn ôl i fis Gorffennaf. Yr opera *In Parenthesis* yw addasiad Iain Bell, cyfansoddwr o fri, o gerdd fawr y bardd ac arlunydd, David Jones. Mae'r gwaith yn goffâd o brofiad personol David Jones fel milwr yn y Ffiwsilwyr Cymreig Brenhinol ym Mrwydr Coed Mametz, oedd yn rhan o ymgyrch y Somme.

Mae'r arddangosfa yn cynnwys 923 o oleuadau, yn cynrychioli pabïau coch i gofláu pob un o'r 923 o Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a gollodd eu bywydau yn y frwydr enbyd honno – ac sydd heb garreg fedd hysbys, ond bod eu henwau yn ymddangos ar Gofeb Thiepval yn y Somme.

Yn y cyntedd y tu fewn i'r Ganolfan mae arddangosfa o fath gwahanol, sef sgrin fawr, ac os arhoswch chi o flaen y sgrin fe gewch chi weld ffilm sy'n olrhain hanes y milwyr. Bydd arddangosfa'r 'pabïau' a'r sgrin fawr yn para tan 22 Mehefin. Gwerth eu gweld!

Mae gwaith celf David Jones i'w weld yn yr arddangosfa *Uffern Rhyfel* yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn y brifddinas tan 4 Medi.

Llun: trwy garedigrwydd Max Budgett

Portal
Hyfforddwyr Addysg | Educational Trainers

Mae Cwmni Hyfforddiant Portal yn chwilio am

Gynorthwyydd Swyddfa

I weithio yn eu prif Swyddfa yng Nghaerdydd

Cyflog: £20-25k *(yn ddibynnol ar brofiad)*

Am ragor o fanylion:

Ffoniwch: 02920 474060

Ebostiwch: gwawr.booth@portaltraining.co.uk

Gwefan: www.portaltraining.co.uk

Sychder Anweledig Lesotho

(parhad o dud. 1)

Gydag 80% o boblogaeth y wlad yn ddibynnol ar amaeth, mae'r prinder dŵr wedi difetha'r cnydau gan arwain at y cynhaeaf gwaethaf mewn blynyddoedd. Yn ôl yr ystadegau, mae un o bob tri yn dioddef o brinder bwyd. Mae'r prinder bwyd a dŵr wedi arwain at gynnydd mewn trais gydag un pentref yn dwyn wrth y llall, a chynnydd sylweddol ym mhrisiau bwyd. Mae pris sach o india-corn, un o fwydydd craidd y wlad, wedi treblu ac yn rhy ddrud i ganran sylweddol o'r boblogaeth. Mae nifer o blant yn ddibynnol ar y prydau bwyd sydd ar gael yn yr ysgol - uwd dyfrllyd i frecwast a '*pap*' india-corn a llysiau i ginio. Ni fyddant yn cael unrhyw fwyd gartref oherwydd effaith y sychder.

Mae Dolen Cymru Lesotho, a sefydlwyd ym 1985, wedi bod yn cefnogi gweithgareddau datblygu yn Lesotho ers hynny gan ganolbwyntio ar addysg, iechyd a chysylltiadau cymunedol. Ar hyn o bryd mae pump o athrawon ac un weithwraig iechyd o Gymru yn gweithio yno.

Os am gefnogi gwaith Dolen Cymru Lesotho a chyfrannu at yr Apêl Sychder ewch i'r wefan - **http://www.dolencymru.org/sychder,** ffonio eu swyddfa yng Nghaerdydd ar 029 2049 7390 neu e-bostiwch at swyddfa@dolencymru.org**.**

Y DINESYDD

Golygydd:
Miranda Morton

Golygydd Gorffennaf / Awst
Bryan James

Cyfraniadau erbyn 27 Mehefin i:
db.james@ntlworld.com
Aurorwel, 52 Highfields,
Llandaf, Caerdydd, CF5 2QB
029 20566731

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestyn@gmail.com
63 De Burgh St., Glan-yr-afon,
CF11 6LB
07876 068498

Dosbarthu copïau:
Huw Jones
huwgybuw@aol.com
22 Blaen-y-coed, Radur,
Caerdydd, CF15 8RL
029 20843835 07985 174997

www.dinesydd.cymru

Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

CABAN, Pontcanna
CANT A MIL VINTAGE, 100 Whitchurch Rd
CHAPTER, Treganna
DERI STORES, Rhiwbeina
FOOD FOR THOUGHT, Y Barri
GRIFFIN BOOKS, Penarth
PAPERWEIGHT, 22 Wellfield Road
SIOP Y FELIN, Yr Eglwys Newydd
VICTORIA FEARN GALLERY, Rhiwbeina

TAFWYL 2016

Mae Gŵyl Gymraeg Caerdydd yn dychwelyd i Gastell Caerdydd ar 2 a 3 Gorffennaf, â mynediad yn **rhad ac am ddim** i'r Castell.

Dyma ychydig o'r digwyddiadau fydd ar y gweill.

Yurt Byw yn y Ddinas: Beti a'i Phobl – Jon Gower yn holi Beti George; Beti George sy'n cael ei holi, am newid.

Prif Lwyfan: Eden - Ugain mlynedd ers i Eden ffrwydro ar y sîn bop Gymraeg gyda'r glasur *Paid â Bod Ofn,* maen nhw'n ailffurfio yn arbennig i Tafwyl.

Pabell Bwyd a Diod: Bryn Williams - Sesiwn goginio gydag un o gogyddion gorau Cymru, Bryn Williams. Cyfle i flasu ryseitiau o lyfr newydd y cogydd o Ddyffryn Clwyd.

Yurt T - Ardal newydd sbon ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau. Ardal ymlacio a yurt llawn gweithgareddau a gweithdai, gan gynnwys sesiynau colur, graffiti, ffasiwn a chelf.

Yurt Byw yn y Ddinas: Clwb Comedi Tafwyl - Gyda sêr sioe comedi stand-yp S4C 'Gwerthu Allan' – Sarah Breese, Phil Cooper, Noel James ac eich MC, Dan Thomas. Sioe 16+

Pabell Dysgwyr - Gyda gwesteion arbennig ar y llwyfan, gan gynnwys y gyflwynwraig a'r tiwtor Nia Parry, y canwr Al Lewis a'r hanesydd y Dr Dylan Foster Evans. Bydd llawer o gyfleoedd i ymarfer eich Cymraeg a chwrdd â dysgwyr eraill.

Prif Lwyfan: Ar Log a Dafydd Iwan - Dros ddeng mlynedd ar hugain ers ffurfio'r bartneriaeth gerddorol fythgofiadwy, mae'n bleser croesawu'r criw. Dyma'r bartneriaeth a esgorodd ar ganeuon fel *Cerddwn Ymlaen, Ciosg Talysarn, Y Wên Na Phyla Amser* a'r anthem fytholwyrdd - *Yma o Hyd*.



Yurt Byw yn y Ddinas: Caffis Cymru - Sesiwn drafod yng nghwmni Lowri Haf Cooke, awdur cyfrol newydd Caffis Cymru. Beth sy'n gwneud caffi da? Sgwrs gydag Elinor Wyn Reynolds, Gwasg Gomer.

Pabell Bwyd a Diod: Sesiwn Blasu Jin - Sesiwn blasu jin gyda Dà Mhìle Distillery. Mae'r cwmni o Geredigion yn arbenigo mewn gin blas gwymon a jin eirin tagu.

Pabell Lenyddiaeth - Ymhlith yr awduron a'r beirdd talentog fydd Aneurin Karadog, T. James Jones, Manon Rhys, Alan Llwyd a Christine James. I gloi penwythnos llawn dop o arlwy llenyddol gwych bydd Radio Cymru yn cyflwyno Talwrn y Beirdd.

"rhaid dymuno lwc dda i dîm pêl-droed Cymru yng Nghystadleuaeth Cwpan Pêl-Droed Ewrop "

Colofn G.R.

Mae holl firi'r Etholiad ar gyfer ein Senedd ym Mae Caerdydd wedi bod. Cafwyd tipyn o ddrama serch hynny yn sesiwn gyntaf y Senedd newydd pan fethwyd ag ethol Carwyn Jones yn Brif Weinidog. Rhaid oedd iddo aros am ychydig cyn cyrraedd y nod. Hwyrach cawn senedd fwy bywiog gyda saith o aelodau Plaid UKIP yn y senedd am y tro cyntaf! Y mis hwn, rhaid i ni roi ein barn am aros neu ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Wedyn, hwyrach cawn lonydd gan y gwleidyddion am ychydig!

Ym mis Gorffennaf eleni bydd Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn dathlu ei degfed flwyddyn ar drigain o fodolaeth a bydd sêr megis Bryn Terfel a Katherine Jenkins yn perfformio ynddi. Gŵr o'r enw Harold Tudor gafodd y weledigaeth o sefydlu'r Ŵyl hon ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd ac ar ôl ymgynghori â'i gyfaill, y cerddor W S Gwynn Williams, aeth ati i geisio perswadio nifer o gynghorau tref i fod yn gartre i'r Eisteddfod. Ond yr unig gyngor odd yn fodlon cynnig cymorth ariannol odd Cyngor Tre Llangollen. Felly, yn Llangollen y cynhaliwyd yr Eisteddfod gyntaf yn 1947 a byth oddi ar hynny mae'r Ŵyl unigryw hon wedi mynd o nerth i nerth ac yn denu miloedd o gystadleuwyr a chynulleidfa o bedwar ban byd yn flynyddol. Hir oes i'r Eisteddfod hon! Mae'r bardd T Gwynn Jones wedi cyfansoddi geiriau hynod o addas fel arwyddair yr Eisteddfod sef "Byd gwyn fydd byd a gano/Gwaraidd fydd ei gerddi fo".

Mae Cory Allen o dîm rygbi Gleision Caerdydd wedi ei ddewis i ymuno â charfan tîm rygbi saith bob ochr Prydain a fydd yn cystadlu yn y Chwaraeon Olympaidd yn Rio yn yr Haf. Mae Cory yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Morgannwg yn y Barri. Pob llwyddiant iddo fo.

Yn olaf rhaid dymuno lwc dda i dîm pêl-droed Cymru sy'n wynebu Slofacia, Lloegr a Rwsia yn eu grŵp yng Nghystadleuaeth Cwpan Pêl-droed Ewrop yn Ffrainc y mis hwn. Edrychwn ymlaen yn eiddgar ar y gystadleuaeth hon a llwyddiant i'n tîm cenedlaethol!

Cwlwm Busnes

Darlledu cyhoeddus mewn cyfnod o chwyldro

"Dwi'n caru'r BBC ac yn caru'r cysyniad o ddarlledu cyhoeddus," oedd geiriau Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru yng nghinio blynyddol Cwlwm Busnes Caerdydd ar nos Iau 19 Mai.

Llanwyd ystafell yng Ngwesty Jurys Inn, Park Place, Caerdydd gan 120 o bobl busnes iaith Gymraeg y brifddinas. Daethant ynghyd i wrando ar bennaeth BBC Cymru yn trafod yr heriau sy'n wynebu'r gorfforaeth heddiw, tra hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd buddsoddi yn nyfodol darlledu cyhoeddus yng Nghymru.

Disgrifiodd sut y bydd cartref newydd i BBC Cymru yn y Sgwâr Canolog yn rhoi'r cyfle i uwchraddio cyfleusterau radio a theledu a bydd manteision economaidd y datblygiad newydd yn werth dros biliwn o bunnoedd dros y ddegawd nesaf.

Soniodd am bapur gwyn Siarter y BBC a gyhoeddwyd yn ddiweddar, er mai barn Rhodri Talfan Davies oedd bod yr hyn na chafodd ei gynnwys ynddi yn fwy diddorol. "Y gynulleidfa enillodd y siarter," dywedodd. Ymatebodd rhyw 200,000 o bobl i'r ymgynghoriad a nifer ohonynt yn cwestiynu pam oedd y Llywodraeth yn ymyrryd â gwasanaeth y mae unigolion ar draws y wlad yn treulio oriau bob wythnos yn ei wylio neu yn ei ddefnyddio.

Soniodd hefyd am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg i ddarlledu cyhoeddus yng Nghymru. "Rhaid i ni fynd â'r iaith ar daith i'n cynulleidfaoedd," dywedodd.

Pwnc arall oedd sut yr adlewyrchir Cymru ar y sgrin. Cytunodd Rhodri Talfan Davies bod *Doctor Who* a *Casualty* yn gynnyrch cryf i Gymru ond yn ôl y cyhoedd, dyw hynny ddim yn ddigon. Mae yna awch dros adlewyrchu manteision diwylliannol a phrofiadau cymunedol gwahanol ar draws Gymru.

Noddwyd y cinio eleni gan Rondo Media, Amgueddfa Cymru a Job Trac Cymru.

Catrin Taylor

Ceir rhagor o fanylion am ddigwyddiadau Cwlwm Busnes Caerdydd ar www.cwlwmbusnescaerdydd.com.

WHALU MEDDILIE

"A dw i'n gobeithio bod yr hyn oedd gen i i'w ddweud yn help i'r genhedlaeth newydd o feddygon chwyldroi gofal dementia."

Beti George

Dw i'n hwyr unwaith eto yn llunio'r golofn ma! Nid yn rhy hwyr gobeithio. Dw i'n teimlo mod i'n colli rheolaeth ar fy mywyd yn llwyr ambell waith. Tasech chi'n gweld yr annibendod yn y stydi; mae fy nghyfrifydd yn amyneddgar iawn wrth ddisgwyl am gyfrifon y llynedd; maen nhw i gyd yn barod ond rhoi trefn arnyn nhw yw'r broblem. Fe fydda i'n cael hunlle weithie mod i wedi anghofio talu bil, ac mae'r llythyr gewch chi'r diwrnode 'ma, os nad ych chi wedi ei dalu, yn aml yn bygwth - fe fydda i yn fy hunlle yn dychmygu carchar.

"Pam wyt ti'n dal i weitho te?" dw i'n clywed rhai yn gofyn. Wel, dyna'r unig beth sy'n fy nghadw rhag mynd i drobwll o anobaith. Mae'n rhoi dihangfa i fi, a chyhyd â bod pobl yn cynnig gwaith, fe'i cymraf. Mae'n wylie i fi, a dweud y gwir.

A David? Mae e mewn hwylie da rhan fwya o'r amser ac yn dal i feirniadu gramadeg pobl ar y newyddion!

Fel rhan o'u haddysg, mae myfyrwyr blwyddyn gynta'r ysgol feddygol yng Nghaerdydd yn mynd allan i'r gymuned i weld fel mae pobl yn ymdopi â salwch. Fe gawson ni ddau lot o dri yn tŷ ni. Roedd D wrth ei fodd ac yn perfformio fel slawer dydd - heb y gallu i gyfathrebu trwy eiriau gan ei fod wedi colli hynny ers sawl blwyddyn. Roedden nhwythe yn ymateb yn wych iddo e, ac yn diolch eu bod wedi cael y cyfle i'w gwrdd.

Wedyn fe es inne i annerch 300 ohonyn nhw (saith o Gymry Cymraeg yn ei plith!) ar shwd mae hi ar rywun fel fi sy'n gofalu, a fydda i ddim yn dal nôl. Dyma'r trydydd tro i mi neud, ac mae'r ymateb mor, mor werthfawrogol. Maen nhw'n cael clywed am brofiad go iawn yn hytrach na rhyw ddamcaniaeth academaidd. A dw i'n gobeithio bod yr hyn oedd gen i i'w ddweud yn help i'r genhedlaeth newydd o feddygon chwyldroi gofal dementia.

CIP AR Y LLYFRAU

Cyhoeddwr Brwd

Mae Richard Houdmont yn un o'r enwau mwyaf cyfarwydd yn y byd cyhoeddi yng Nghymru. Y llynedd fe enillodd wobr anrhydeddus gan Canmol: Gwobrau Marchnata Cymru – sy'n dathlu rhagoriaeth ym myd marchnata yng Nghymru – am ei 'gyfraniad eithriadol' i'r diwydiant.

Richard Houdmont yn derbyn gwobr Canmol y llynedd

Mae Richard yn gyn-Ddirprwy Gyfarwyddwr Gwasg Prifysgol Cymru â gyrfa ym myd cyhoeddi am dros 30 mlynedd. Yn 2006 fe ymunodd â Bwrdd Poetry Wales Press (sy'n cyhoeddi llyfrau o dan gwasgnod Seren) a fe yw Cadeirydd y Bwrdd ers 2007. Yn ddiweddar fe'i penodwyd yn Ymddiriedolwr Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'n cyhoeddi llyfrau Cymraeg o dan ei enw ei hun.

Mae'r Dinesydd yn falch o dynnu sylw at ddau lyfr newydd a gyhoeddwyd ganddo yn ddiweddar – ac at gyfraniad un o awduron amlycaf Cymru, Ioan Kidd – sydd hefyd, wrth gwrs, yn un o olygyddion y Dinesydd. O'i wasg y daw dau addasiad i blant rhwng 4 a 7 oed sef *Awyren Alys* a *Gwerth y Byd* – cyfaddasiadau gan Ioan Kidd o storïau gan Robert Munsch (£4.50 yr un).

Gwasg Gomer

Mae Gwasg Gomer wedi cyhoeddi llyfrau newydd i blant hefyd sef casgliad lliwgar o straeon pum munud ar gyfer y plant lleiaf sef *Straeon Tic Toc*. (£8.99) Mae pob un o'r straeon wedi eu darlledu'n wreiddiol gan Radio Cymru fel rhan o'r gyfres *Tic Toc* ar nos Sul. Ceir hefyd *Dim Ond Traed Brain* (£5.99), casgliad o gerddi hwyliog ac ysgafn gan Anni Llŷn, Bardd Plant Cymru.

Llyfr i oedolion

O'r diwedd mae tîm pêl-droed Cymru wedi cyrraedd pencampwriaeth ryngwladol fawr ac i ddathlu hyn mae'r Lolfa wedi cyhoeddi y *Welsh Football Quiz Book*. (£3.99).

Yn rhifyn Gorffennaf/Awst o'r *Dinesydd*, gobeithir cael adolygiadau o rai o'r llyfrau hyn, gan blant a phobl ifanc y ddinas.

Cymdeithas Cymry Ariannin - Cangen y De

Nos Lun Mai 16 cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chafwyd sgwrs ddifyr a diddorol gan Gerallt Nash ar gartrefi'r Wladfa.

Etholwyd Lois Dafydd yn Gadeirydd, Elvira Moseley yn Is-Gadeirydd, Eiry Palfrey yn Ysgrifennydd a Bob Pugh yn Drysorydd.

Pensaernïaeth Patagonia

Brodor o Sir Benfro yw Gerallt Nash, pensaer, a chyn Swyddog Adeiladau yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Treuliodd ef a Pat ei wraig fisoedd lawer yn y Wladfa. Teitl ei sgwrs oedd *'Pererin wyf mewn anial dir - Adeiladau'r Cymry yn y Wladfa 1865-1925'*

Bwthyn o fwd a hesg ym mhen ucha'r Dyffryn (dechrau'r 20fed ganrif)

Trwy daflunio lluniau amlinellodd Gerallt hanes y Cymry cynnar yn cyrraedd anialdir Patagonia heb ddim i'w croesawu, er i'r trefnwyr addo tai, tir bras, anifeiliaid ac offer iddyn nhw. Rhaid oedd mynd ati yn ddiymdroi i geisio ymgeledd a thrin y tir er mwyn goroesi.

Cytiau bach oedd y tai cyntaf, bythynnod pridd syml. Cymharwyd lluniau o fythynnod a chapeli Cymru gyda

Bwthyn o friciau yn Stryd Michael D. Jones, y Gaiman

chartrefi a chapeli cynnar y Gwladfäwyr. Bach iawn oedd y gwahaniaeth. Prin iawn oedd y deunyddiau ar gyfer adeiladu yn y paith. Rhaid oedd gwneud brics o glai, pridd a gwellt, gyda tho gwellt a chwe modfedd o glai ar ei ben. Yn ddiweddarach llwyddwyd i fewnforio deunyddiau fel pren a sinc (i'r to) o Buenos Aires.

Gorlifai'r afon Camwy yn rheolaidd gan ddinistrio'r tai cyntaf cyntefig – felly dysgwyd yn fuan i adeiladu ar dir uchel. Gweithiai'r dynion oddi cartre gydol yr wythnos, yn clirio'r tir, codi adeiladau, palu ffosydd ayb – a byw mewn tai bach syml un ystafell to-gwellt a elwid yn 'tai batch' (o'r gair *bachelor*).

Tŷ cerrig yw'r '*Tŷ Cyntaf*' yn y Gaiman, tebyg iawn i fwthyn Cymreig, adeiladwyd ym 1874, gyda simdde yng nghornel y to a phlastr clai ar y parwydydd. Codwyd dwy stafell i ddechrau gyda seler allanol dan-ddaearol i gadw'r bwyd yn oer. Roedd gan lawer dwlc mochyn hefyd o glai a gwellt.

Y Gwladfäwyr eu hunain a wnaeth y rhan fwyaf o'r gwaith – trin y tir a chodi adeiladau a hyd yn oed adeiladu rheilffordd.

Rhwng 1899 a 1904 gorlifodd y Camwy bedair gwaith gan ddinistrio llawer o'r adeiladau pridd. Dim ond y tai cerrig a'r rhai ar dir uchel a oroesodd. Gadawodd llawer o'r Cymry y Wladfa yn y cyfnod hwn wedi llwyr ddigalonni.

Eiry Palfrey

Aelwyd Hamdden

Bob blwyddyn trefnir taith i wahanol leoedd sydd o ddiddordeb i'r aelodau. Eleni, drwy wahoddiad cwmni Tinopolis, aeth deugain ar 4 Mai i ymweld â'r stiwdios yn Llanelli. Wedi mwynhau pryd blasus ganol dydd yn y "*Sessile Oak*", Trostre, dyma gyrraedd yr adeilad diddorol a chael croeso mawr gan Huw Bala ac Yvonne Evans, cyflwynwyr y tywydd, a Siân Thomas, Rhodri Owen a Huw Ffash hanner awr cyn darlledu "*Prynhawn Da*", y rhaglen ddyddiol. Roedd yn dipyn o syndod pan gafodd Gwenda Morgan, Rita Gwyn Jones ac Aiona Hammond eu gwahodd i gymryd rhan yn y rhaglen. Ar ôl treulio awr ddiddorol yn y gwahanol stiwdios, mwynhaodd pawb baned a sgwrs yng nghwmni y golygydd poblogaidd, Angharad Mair a'r staff - prynhawn i'w gofio!

Ar 18 Mai, y comedïwr, actor, darlledwr, pregethwr a storïwr poblogaidd Idris Charles Williams oedd y gwestai. Ar wahân i sôn am yr enwog, amryddawn Charles Williams, ei dad, aeth â'r gwrandawyr yn ôl i'w blentyndod ym Modffordd, Sir Fôn, gan gyflwyno storïau am gymeriadau lliwgar y fro yn null ei dad. Soniodd am ei brofiad, yn ifanc iawn, wrth ddilyn ei dad pan fyddai'n cyflwyno nifer fawr o Nosweithiau Llawen ben baladr, a chael cwmni enwogion fel T. C. Simpson, y Co' Bach a Bob Roberts, Tai'r Felin. Disgrifiodd ei dad fel digrifwr dawnus ac actor naturiol, ond yn bennaf fel cyfaill teyrngar i'w fab, gan osod esiamplau gwerthfawr a drysorai drwy ei ieuenctid mewn llawer modd ac a ddylanwadai arno drwy ei yrfa. Cafwyd prynhawn hapus a chwerthiniad iach yn ei gwmni - sef cip ar ei brofiadau fel mab diolchgar i'w dad enwog!

Menna Brown

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yng nghyfarfod olaf ein tymor ar 16 Mai, cawsom gwmni Rhonwen Lewis o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Cafodd ei magu a'i haddysg ysgol ym Mlaenau Ffestiniog cyn dod i Gaerdydd i ddilyn cwrs gradd mewn iaith a lleferydd. Ar hyn o bryd mae'n ddarlithydd yn yr adran ac yn paratoi traethawd at ennill PhD.

Ffocws penodol ei rhaglen ymchwil yw archwilio datblygiad lleferydd cynnar mewn plant dwyieithog, Cymraeg a Saesneg. Er bod llawer o astudiaethau wedi edrych ar sut mae seiniau lleferydd yn datblygu mewn plant dwyieithog, hyd yn hyn does neb wedi archwilio'n fanwl yn y maes hwn gyda phlant sy'n iau na dwy a hanner oed sy'n caffael y Gymraeg. Mae'r diffyg data empirig yn arwain at orddibyniaeth ar wybodaeth o astudiaethau yn y Saesneg; sy'n fater o bwys mawr wrth wneud penderfyniadau ynghylch asesu a thrin plant yng Nghymru.

Astudiwyd chwech o blant dros gyfnod o 18 mis, gan ddechrau pan oeddent yn 12 mis oed. Wrth iddynt chwarae gyda rhiant recordiwyd pob ynganiad a chrëwyd trawsgrifiad a dadansoddiad. Daeth yn amlwg bod datblygiad un bachgen yn wahanol i'r disgwyl. Roedd y bachgen, a oedd yn clywed y ddwy iaith gartref, yn defnyddio ystod gul o gytseiniaid, gan awgrymu bod ei eiriau i'w clywed yn debyg iawn i'w gilydd. Wrth gymharu ei ynganiadau mewn cyd-destun Cymraeg gyda rhai mewn cyd-destun Saesneg, gan ddefnyddio'r data gan y pump plentyn arall, bydd modd llunio darlun o ddatblygiad lleferydd anarferol mewn plentyn dwyieithog. Bydd modd defnyddio'r astudiaeth hon yn fan cychwyn i bontio'r bwlch yn yr ymchwil cyfredol.

Cylch Cinio Cymry Caerdydd

Daeth tymor 2015-2016 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd i ben nos Lun 9 Mai gyda'r Athro Richard Wyn Jones, Cyfarwyddwr Canolfan Llywodraethiant Cymru, yn westai. Daeth 37 (gyda 10 o'n selogion wedi ymddiheuro oherwydd galwadau eraill neu yn teithio dramor) i wrando arno'n tafoli sefyllfa'r pleidiau yn y Cynulliad ar ôl yr etholiadau ychydig ddiwrnodau ynghynt. Trafododd y dull o bleidleisio, tactegau'r pleidiau yn yr etholiad a rhai o'r diffygion (yn ei olwg e) ym maniffestos y pleidiau. Pwysleisiodd fod angen trafodaeth well ac aeddfetach ar wleidyddiaeth yng Nghymru. Cafwyd nifer dda o gwestiynau ar ddiwedd ei sylwadau ac atebwyd nhw yn llawn ac yn feistrolgar gan y siaradwr. Bu'n noson arbennig o lwyddiannus a phawb yn cytuno bod gennym berson o'r calibr uchaf yn yr Athro Richard Wyn Jones. Ar ddiwedd y noson trosglwyddodd Dafydd Griffiths, llywydd y tymor presennol, fedal y Cylch Cinio ymlaen i Paul Morgan, llywydd y Cylch am y tymor 2016-2017. Diolchodd i'r swyddogion a'r pwyllgor am eu cydweithrediad yn ystod y flwyddyn ac hefyd i Jolyons am eu lletygarwch ac i bawb ddaeth i'r cyfarfodydd.

Dafydd Griffiths

Swyddogion Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd 2016 -2017. O'r chwith - Peter Gillard (Is-ysgrifennydd), Glyn Hughes (Trysorydd), Paul Morgan (Llywydd), Michael Jones (Ysgrifennydd), Alwyn Evans (Is-lywydd).

NABOD EIN POBOL

Falmai Griffiths yn holi Carys Lloyd

Ble cawsoch eich geni a'ch magu?

Ces i fy ngeni yn Ysbyty Treforys a byw yn Ystradgynlais nes symud i fyw yn Y Mwmbwls ger Abertawe.

Ble addysgwyd chi?

Es i i Ysgol Gynradd Bryn y Môr yn Abertawe, ar y bws bob dydd. 'Ro'n i wrth fy modd, yn mwynhau'r gweithgareddau yn yr ysgol a chael llawer o hwyl yn y côr. Wedyn es i i Ysgol Uwchradd Gymraeg Gŵyr yn Nhre-gŵyr, ar fws eto. Ces i lawer o gyfleoedd yno gyda'r gwersi a'r gweithgareddau allgyrsiol.

Pryd oedd y gweithgareddau hyn yn digwydd?

Ar ôl ysgol.

Oedd y bysys yn aros i'ch cludo adref?

Nag o'n, roedd yn rhaid i'n rhieni ddod i'n 'nôl ni. 'Ro'n ni'n blant lwcus gyda rhieni cefnogol. 'Ro'n i'n mwynhau canu yn y côr ac fe enillon ni lawer gwaith yn eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol. Dw i'n cofio dod yn ail yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a chôr o San Fransisco yn ein curo. Canon ni yng nghyngerdd cloi'r Eisteddfod gyda Pavarotti yn canu hefyd. Profiad arbennig! Profiad arall fydd yn aros am byth yn fy nghof oedd perfformio Oratorio'r Pasg yn Eglwys Gadeiriol Aberhonddu gydag Owain Arwel Hughes yn arwain.

Beth wnaethoch ar ôl gadael yr ysgol?

Des i i Gaerdydd i'r Brifysgol i astudio fferylliaeth; 'ro'n i eisiau bod yn fferyllydd ers yn ifanc iawn. Mwynheais y cwrs er ei fod yn anodd gyda llawer o waith a heb lawer o amser i wneud pethau eraill fel canu ac ymlacio. Ar ôl graddio es i i Gaerfyrddin. Roedd fy rhieni wedi symud i Nantgaredig erbyn hynny, a ches i swydd yn Boots. Yng Nghaerfyrddin ymunais i â chôr bach o'r enw Seingar a mwynhau'r canu a'r cwmni'n fawr iawn. Dod nôl i Gaerdydd wedyn a chael swydd mewn fferyllfa yn Nhonypandy. Ro'n i'n hapus iawn yno gyda phobol hyfryd yn llawn hiwmor. Roedd y teithio'n fy mlino a ches i swydd mewn fferyllfa yn Rhiwbeina yn 2007 a dw i yno o hyd. Yn ystod y cyfnod hwn fe briodais ac erbyn hyn mae merch fach 'da ni o'r enw Erin Wyn.

Oes amser gyda chi i gael diddordebau?

A dweud y gwir, nag oes. Dydy oriau gwaith ddim yr un peth bob wythnos ac mae'n anodd ffitio pethau i fewn. Cyn priodi 'ro'n i'n hoffi teithio dramor. Dwi wedi bod yn Cuba a Gwlad Thai, a byddwn yn mynd i Gyprus fis nesaf.

Ydych chi wedi gwireddu eich breuddwyd?

Dw i'n hapus iawn fy myd ond bydden yn hoffi teithio mwy yn y dyfodol.

Fyddech chi'n hoffi mynd yn ôl i fyw i Fro Gŵyr rhyw dro?

Na fyddwn. Byddai'n well 'da fi fyw yn ardal Nantgaredig gyda chymuned glos iawn.

Oes 'na rywun yr hoffech gael pryd o fwyd gyda nhw?

Oes, fy nhad-cu ar ochr mam, sy wedi marw erbyn hyn. Roedd e'n ddyn gyda daliadau cryfion. Roedd e'n gomiwnydd i'r carn ac yn hoff o ddiwylliant Cymraeg a Saesneg. Roedd e'n medru siarad Esperanto. Ei ffrind agos oedd Josef Herman, yr arlunydd. Ffoadur o Wlad Pwyl oedd e ac wedi ymgartrefu ym mhentref Cwmgïedd. Symudodd i Lundain ar ôl i'w waith ddod i amlygrwydd. Bydden i wedi bod wrth fy modd yn gwrando ar Tad-cu yn dweud yr holl hanesion wrthyf.

Oes arwr neu arwres gennych?

Oes, Mam. Gadawodd yr ysgol yn bymtheg oed a chael swydd yn swyddfa'r cyngor yn Abertawe. Dechreuodd ar y gwaelod a gweithio'n galed a dringo'r ysgol lan i'r top. Roedd yn rhoi pob cefnogaeth i mi a hynny tra'n gweithio amser llawn yn y swyddfa. Bu farw Dad a symudodd mam i Gaerdydd ac mae'n dal i fy nghefnogi. Dw i mor falch ohoni.

CERDYN POST O DORONTO

Lowri Haf Cooke yn holi Angharad Gregory

Mae Angharad Gregory (Evans, gynt) yn byw ym mhentre Claremont ger dinas Toronto.

Un o ble ydych chi'n wreiddiol, a beth yw'ch cysylltiad â Chaerdydd?

Tyfais i lan yn Fairbrook Close, Rhiwbeina, a wedyn symudon ni i Lady Mary Road ym Mharc y Rhath pan o'n i'n 11 oed. Dwi'n cofio'r Pab yn dod i Gaerdydd yn 1982, a chroeso Frank Hennessy: *"John Paul, we welcome you with all our 'earts."*

Sut lanioch chi yn ardal Toronto a beth ydych chi'n ei wneud yno?

Fe briodais i â James yng Nghapel Minny Street yn Cathays ar 29 Awst 2003, a symudon ni mas i Ganada ddeuddydd yn hwyrach! Roedden ni'n byw yn Llundain pan ddaeth cyfle i James weithio yn Nhoronto. Y bwriad oedd aros am dair blynedd, ond ry' ni'n dwli ar y lle, ac mae'r plant Gwyn a Cate yn cael bywyd gwych, mewn pentre bach rhyw 45 munud o Doronto. Dwi'n fam i Gwyn a Cate, yn aros gartre yn edrych ar ôl pawb, y tŷ, a'r ci.

Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol

Gwylio Gwyn yn sglefrio iâ yn y llawr sglefrio lleol; paned o goffi mewn caffi o'r enw Red Bulb sydd yn nhre cyfagos Stouffville; cefnogi Cate wrth iddi chware pêl-droed, a James yn coginio pizzas ar gyfer swper.

Pa lefydd yn ardal Toronto y byddech chi'n annog i rywun o Gaerdydd a'r Fro i ymweld â nhw?

Niagara Falls, sydd rhyw awr o Doronto. Er bod yr ardal braidd yn dwristaidd, mae gweld y rhaeadrau yn brofiad ysgubol. Pan fyddwn ni'n ymweld â Thoronto, byddwn ni wastad yn mynd i fwyty o'r enw Real Sports, lle ma 'na un sgrin enfawr a 199 o sgriniau bach. Mae pêl-droed yn beth mawr i fi ac mae nhw'n dangos gemau'r Uwch-gynghrair yno ar fore Sadwrn (ry' ni pump awr tu ôl i Brydain). Mae Toronto ger llyn Ontario, ac mae'n bosib dal cwch a diflannu i dawelwch Centre Island lle mae na draethau hyfryd, a ffair i blant bach.

Angharad Gregory a'i phlant

Beth ydych chi'n ei golli fwyaf am Gaerdydd neu'r Fro?

Y teulu. Dwi'n lwcus – mae Mami yn dal i ddod i'n gweld ni, er ei bod hi dros ei phedwar ugain. Mae gen i wyth nith a nai ar fy ochr i, a phan adawais i Gaerdydd roedden nhw'n blant. Nawr mae nhw bron i gyd yn oedolion. Dwi'n hoffi meddwl y bysen i'n fodryb reit cŵl, ond dwi 'di colli'r cyfle braidd. Nawr bod tîm pêl-droed Cymru yn cystadlu ym Mhencampwriaethau Ewrop, bysen i'n dwli ar fod yng Nghaerdydd dros yr wythnose nesa, jest i gael blas ar y cynnwrf.

Ydych chi'n adnabod dinesydd o Gaerdydd sydd bellach yn byw mewn dinas dramor, a fyddai'n fodlon danfon Cerdyn Post atom ni? E-bostiwch lowri.cooke@live.co.uk gydag unrhyw wybodaeth.

Cymdeithas Carnhuanawc

Ddydd Sadwrn, 14 Mai, aeth rhyw ddwsin o gefnogwyr Cymdeithas Carnhuanawc i Gaerfaddon gyda Keith Bush yn arwain. Ymwelwyd â'r Baddonau a gweld rhai o agweddau arbennig o bensaernïaeth y ddinas. Gwelwyd hefyd yr adeilad lle roedd Iolo Morgannwg yn aros tra yn byw yng Nghaerfaddon. *(gweler lluniau gwaelod tud.8)*

Y digwyddiadau sydd i ddod yw:

Taith Gerdded ger Camlas Castell Nedd, Llansawel ar 18 Mehefin, yn dechrau gyda chinio yng Ngwesty'r Castell yng Nghastell Nedd am 12.30.

Helfa Drysor Tafwyl nos Fercher, 29 Mehefin, yn Ardal yr Eglwys Newydd. Cyfarfod yn y Royal Oak am 6.30.

Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni 2016

Darlith Carnhuanawc – ddydd Mercher, 3 Awst, am 12.00 ym Mhabell y Cymdeithasau 1.

Anerchir gan Yr Athro E. Wyn James ar y testun 'Thomas Price – Carnhuanawc, 1787-1848'

Ymweliad â Rhaglan gyda'r nos. Cyfarfod ym Maes Parcio Rhaglan am 4.30. Ymweld â'r Castell a'r Eglwys a phryd o fwyd yn y Beaufort Arms.

Am fwy o fanylion cysyllter ag Alan Jobbins
029 2062 3275 neu asjobbins@btinternet.com

EGLWYS Y CRWYS

Cyfarchion

Dymuniadau gorau i'r Dr. Owain Prys Thomas a'r Dr. Kate Jenkins ar eu priodas yn ddiweddar. Gwasanaethwyd gan y Parch. Glyn Tudwal Jones. Mae Owain yn feddyg yn Nhŷ Olwen, Abertawe, ac mae Kate yn feddyg gyda Bron Brawf Cymru yng Nghaerdydd.

Croeso cynnes i'r Dr. Selyf Shapey a'i deulu sydd wedi dychwelyd i fyw i Gaerdydd. Mae Selyf yn feddyg yn Ysbyty Llantrisant. Byddant yn ymgartrefu yn ardal Rhiwbeina.

Dymunwn yn dda i'r Parch. Glyn Tudwal Jones ar gael ei ethol yn Llywydd Cymdeithasfa'r De. Fe'i sefydlwyd mewn cyfarfod o'r Gymdeithasfa yn Rhydaman.

Pob dymuniad da i Rhian Huws Williams fydd yn ymddeol o'i swydd fel Prif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru ddiwedd Mehefin. Gobeithio y bydd yn mwynhau ei hymddeoliad er yn gwybod na fydd yn gallu bod yn segur yn hir!

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Bryan a Val James a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam Val, Mrs. Nellie Phillips. Er nad yn aelod yn y Crwys roedd yn cyfrannu'n hael ac yn falch o weld cynrychiolaeth o'r Eglwys yn ymweld â hi. Bu gofal tyner Bryan a Val amdani dros y blynyddoedd diwethaf yn fawr.

Bedydd

Mewn gwasanaeth hyfryd bedyddiwyd Tomos Steffan, mab bach Cai a Sioned Pritchard. Gweinyddwyd y sacrament gan nain a taid Steffan, y Parchedigion Ifan a Catrin Roberts, ac roedd ei chwaer fawr, Efa Mai, wrth ei bodd. Pob dymuniad da i'r teulu.

Grŵp Merched

Mwynhaodd yr aelodau eu hymweliad â Llancarfan gyda phryd o fwyd blasus yn y *Fox and Hounds* ac yna ymweld â'r Eglwys. Diolch i Catherine Jobbins am y trefniadau.

Cymorth Cristnogol

Cynhaliwyd brecwast llwyddiannus iawn er budd Cymorth Cristnogol a chafwyd elw anrhydeddus. Diolch i Bwyllgor Cymorth Cristnogol yr Eglwys am y trefniadau.

YR EGLWYS EFENGYLAIDD

Oedfa'r Eglwys Newydd

Cynhaliwyd oedfa Gymraeg yn Tabernacl, yr Eglwys Newydd, am 4 o'r gloch, prynhawn Sul, Mehefin 5. Estynnwyd croeso cynnes i bawb.

Byd y bêl

Mawr yw'r bwrlwm, y wefr a'r gobaith wrth i Gymru chwarae yn rowndiau terfynol Cwpan Ewrop, a dymunwn bob llwyddiant i'r tîm. Ond dyma eiriau a ymddangosodd yn ddiweddar mewn erthygl yn 'Y Cwmpawd', cylchgrawn yr eglwys, sydd, efallai yn rhoi pethau mewn persbectif.

"Er cymaint rwy'n edrych ymlaen at weld Bale, Ramsey ac Allen yn dangos eu sgiliau ar lwyfan byd-eang, a gwylio'r gemau a'r cyffro i gyd, mae un peth yn fy nharo i. Er gwaethaf llwyddiant y tîm, dydy hynny wir ddim yn newid dim. Dydy goliau gwych Gareth Bale ddim yn newid boreau Llun glawog, rhwystredigaethau'r gweithle na'r car yn torri i lawr eto. A dydy sgiliau Aron Ramsey yn sicr ddim yn cael unrhyw effaith ar salwch a thristwch a phroblemau perthynas. Pleser y funud – neu, yn fanylach, y 90 munud – yw pêl-droed; ac er bod mwynhau'r gêm yn beth perffaith gywir i'w wneud, does dim atebion i fywyd yn bodoli yn esgidiau chwaraewyr Cymru. Mae gwefr gôl Bale yn erbyn gwlad Belg yn aros yn y cof, ac mae'r atgof am y cefnogwyr yn uno i ganu'r anthem mewn un gêm yn felys – ond dyna yn union beth ydyn nhw: gwefr, atgof, pleser – ond ddim yn bethau sy'n para.

'Mewn cyferbyniad llwyr, mae yna rywbeth neu'n hytrach rhywun sy'n cynnig llawer mwy. Dim gorfoledd y bêl yn taro cefn y rhwyd na rhyddhad y chwiban olaf sy'n cael eu cynnig gan yr Arglwydd Iesu Grist. Yn hytrach delio â'n gwir anghenion a wna. Delio â'n pechod sy'n ein cadw rhag cael perthynas iawn â'n Creawdwr. Delio â'n heuogrwydd nad oes gobaith gennym ei symud ohonom ni ein hunain. Delio â'n hangen i gael 'gwrthrych i'w addoli' a'n dyhead am gariad go iawn. Fel y dywedodd rhywun sy'n trin geiriau yn llawer gwell na mi, 'Iesu, Iesu rwyt ti'n ddigon.'

'A dyna'r allwedd i bopeth ..."

EGLWYS Y TABERNACL

Cofio Alwyn John Williams

Ddechrau Ebrill bu farw Alwyn Williams yn dawel yng nghartref gofal Marie Curie ym Mhenarth. Estynnwn ein cydymdeimlad didwyll i'w wraig Mary a'i ferch Jane.

Lesotho

Gwahoddwyd Gwenallt Rees i deithio i Lesotho i fod yn rhan o raglen i'w darlledu ar S4C. Braf oedd cael gweld y rhaglen honno a gwerthfawrogi'r dystiolaeth weledol o'r hyn mae Gwenallt a Non wedi bod yn sôn amdano.

Ymweliad Undeb Bedyddwyr Cymru

Bydd cynhadledd Adran Gymraeg Undeb Bedyddwyr Cymru yn ymweld â Chaerdydd ddechrau mis Gorffennaf. Achubodd y Gymanfa ar y cyfle i anrhydeddu'r Parch. Peter Dewi Richards, cyn-ysgrifennydd Undeb y Bedyddwyr, fel Llywydd am y flwyddyn 2016-17.

Oedfa ar Radio 4

Am y pumed tro, darlledwyd oedfa *Morning Worship* ar Radio 4 yn fyw o'r Tabernacl fore Sul ganol Ebrill. Lluniwyd y gwasanaeth gan y Parch. Roy Jenkins, gyda'r gweinidog ynghyd â Sian John ac Eirlys Pritchard Jones yn cyflwyno rhannau o'r gwasanaeth. Côr Ardwyn oedd yn canu'r emynau a Janice Ball yn cyfeilio ar yr organ. Yn ddiddorol roedd gŵr a gwraig o Rydychen yn ymweld â Chaerdydd y Sul canlynol a phenderfynu dod i'r Tabernacl yn sgil y gwasanaeth ar y radio.

Datganiad Organ Ilid Anne Jones

Dyna'r trydydd ymweliad cerddorol i'r Tabernacl gan Ilid Anne Jones o fewn blwyddyn. Mae brwdfrydedd Ilid a'i dawn gerddorol yn apelio atoch yn syth. Ei rhaglen oedd yr allwedd i fwynhad amlwg y gynulleidfa: rhaglen o ddarnau adnabyddus gan gynnwys nifer o drawsgrifiadau o fyd opera, y gerddorfa, a'r repertoire corawl, ynghyd â'r elfen Gymreig yn ei chadwyn o alawon a themâu ar anthemau, emyn-donau ac alawon o Gymru.

Bore Coffi

Diolch i Ann a Geoff Nicholls am eu croeso yn eu cartref yn Llandaf yn ystod mis Mai.

SALEM, TREGANNA

Cynllun bwydo a rhoi lloches

Cawsom gyfarfod llwyddiannus a dymunol yn ddiweddar yn Salem gyda'r holl eglwysi eraill sy'n rhan o'r cynllun i fwydo a rhoi lloches i'r di-gartref dros fisoedd y gaeaf. Roedd hyn yn fuddiol wrth i Salem fod yn rhan o'r cynllun am y tro cyntaf eleni. Roedd yn gyfle i gwrdd â'r eglwysi eraill a chyfle i gael sgwrs wrth i bawb ddod â bwyd 'bys a bawd'.

Clwb y Bobl Ifanc

Mae'r clwb wedi bod yn dringo yn ddiweddar yn Boulders ac wedi mwynhau noson gymdeithasol yn Salem.

Tymor Criced

Mae aelodau'r tîm criced eisoes wedi chwarae gêm yn erbyn Clwb Ifor Bach. Er gwaethaf gorfod cystadlu gyda phencampwriaeth pêl-droed yr Ewro yn Ffrainc, rydym wedi llwyddo i lunio rhaglen gyflawn o gemau tan ganol Gorffennaf! Edrychwn ymlaen at nosweithiau cymdeithasol gan obeithio y bydd y tywydd yn garedig!

Adran yr Urdd, Salem

Diolch i'r adran am berfformio ei heitemau ar gyfer Steddfod yr Urdd Sir y Fflint mewn gwasanaeth fore Sul yn ystod y mis. Hyfryd oedd clywed y plant yn perfformio. Hyfryd hefyd oedd cyfraniad y grŵp canu.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn fawr â Mona a'i theulu wedi iddi golli ei mam yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn fawr hefyd â Rhian Jones sydd wedi colli ei mam. Rydym yn meddwl amdanoch yn ystod y cyfnod anodd yma.

EGLWYS EBENESER

Cyngerdd

Ar nos Fercher, 11 Mai cawsom gwmni Côr Poliffonig Caerdydd mewn cyngerdd gwych i godi arian i'n helusen am eleni, Cymdeithas Alzheimers De Cymru. Daeth cynulleidfa deilwng i wrando ar raglen gwerth chweil. Diolch iddyn nhw am ein helpu i godi £750.

Cymorth Cristnogol

Fore Sul, 15 Mai cynhaliwyd ffair ar ôl oedfa'r bore i godi arian ar ddechrau wythnos Cymorth Cristnogol. Gyda phaned a chacen ac amrywiol stondinau llwyddwyd i godi swm teilwng iawn o £506. Daeth cyfraniadau pellach i law ar ôl y ffair. Diolch i bawb gyfrannodd yn yr amlenni hefyd ac i Rachel Jones am gydlynu a threfnu'r ffair.

Colli cyfaill yr achos

Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth y Parch. Shem Morgan, Casnewydd yn 94 oed. Bu'n weinidog yn Aberhonddu, Trelewis, Nelson a Bargoed; ac am gyfnod yn Ysgrifennydd Cartrefi Barnados yng Nghymru. Yn y 70au bu'n aelod yma yn Ebeneser gyda'i wraig Mair a'u merch Anona a pharhaodd ei ddiddordeb a'i gyfraniad i'r eglwys yn gyson hyd y diwedd. Ar 18 Mai daeth tyrfa i dalu'r gymwynas olaf iddo yn Eglwys y Tabernacl, Llanfaches (capel hynaf Cymru), lle bu'n weithgar a mawr ei barch.

Llongyfarchiadau...

... i Beca Hayes ar gael ei hethol yn ddirprwy Brif Ferch yn Ysgol Glantaf.

... i Gethin Lewis a Delyth Williams ar gyrraedd penblwyddi arbennig yn ddiweddar.

... i aelodau Ebeneser a redodd hanner marathon Caerdydd a hefyd i Ynyr Roberts a lwyddodd i redeg Marathon Llundain gan godi arian tuag at glefyd Parkinsons.

BETHEL, RHIWBEINA

Cynhaliwyd cyngerdd yn y capel nos Lun 16 Mai gan Gôr Plant Ysgol y Wern, dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Roedd elw'r noson yn mynd at elusen Canolfan Maggie yn Ysbyty Felindre.

Yna bore Mawrth 17 Mai ymgasglodd nifer o aelodau heini'r capel i fynd am dro o gwmpas Parc Cefn Onn cyn ymuno â nifer o aelodau llai heini am bryd o fwyd yn nhafarn *Yr Hen Fwthyn* yn Llysfaen.

Yn ystod y mis gwasanaethwyd gan ein gweinidog, y Parch. Evan Morgan, yr Athro Gwynfor Jones. Mr Mansel Jones a Mr Gwyndaf Roberts.

Mae nifer o'n haelodau hŷn yn methu ymuno â'n hoedfaon ar hyn o bryd felly dymunwn yn dda iddynt ac anfonwn ein cofion cynnes atynt.

EGLWYS DEWI SANT

Datganiad Organ

Cafwyd dau ddatganiad ym mis Mai fel rhan o'r gyfres i ddathlu trigain mlwyddiant Eglwys Dewi Sant. Croesawyd James Gough (Llundain) a'r Dr. Peter King (Abaty Caerfaddon), y ddau yn organyddion meistrolgar. Cynhelir y datganiad nesaf nos Sadwrn, 16 Gorffennaf am 7:30 pm gan Thomas Trotter. Pris y tocynnau yw £10 (£8 consesiwn) a bydd lluniaeth ysgafn yn ystod yr egwyl.

Cymorth Cristnogol

Cynhaliwyd Stondin Cynnyrch Cartref er mwyn codi arian i waith Cymorth Cristnogol. Drwy wneud hyn a derbyn cyfraniadau, llwyddwyd i godi £360. Ffocws yr ymgyrch eleni yw Bangladesh a chofiwn fod dolen gyswllt rhwng Esgobaeth Llandaf ac Eglwys Bangladesh.

Coffi a Chlonc

Sefydlwyd patrwm o gynnal y boreau coffi i ddysgwyr ar y 3ydd Sadwrn o bob mis. Mae'n gyfle i siarad yn anffurfiol dros baned. Cynhelir y Bore Coffi nesaf ar Sadwrn, Mehefin 18 rhwng 10:30 a hanner dydd.

Noson Eidalaidd

Diolch i Erith ac Alan Davies am groesawu cynifer i`w cartref ar gyfer noson Eidalaidd ac i bawb a gynorthwyodd gyda'r gwaith trefnu. Cafwyd bwyd blasus a digon o hwyl. Diben y noson oedd codi arian ar gyfer yr Ŵyl Flodau yn 2017.

Diolch

Diolch i Barbara Morgan am ei gwaith cydwybodol fel Trysorydd Cylch Dewi ers sawl blwyddyn. Mae hi wedi penderfynu rhoi`r gorau i'r swydd ond mae`n parhau fel aelod gweithgar.

Cyngerdd trigain mlwyddiant

Cynhelir cyngerdd yng nghwmni`r wythawd "Ffrindiau", nos Sadwrn, 18 Mehefin am 7:30 pm. Mae'r aelodau`n dod o ardal Tregaron ac yn cynnal noson o ganu a llefaru.

BETHEL, PENARTH

Achlysur nodedig o lawen oedd oedfa fedydd dwy wyres i Betsan a Howard Evans yn y prynhawn ar 8 Mai. Mae Elise yn blentyn i Ruth ac Ian a Rebecca yn blentyn i Hannah a Steve.

Diolchwn yn fawr i Rosemary Edwards am agor ei gardd er lles elusen. Derbyniwyd dros £800.

Mil o ddiolch i Alwena Harries am lywio'n hymdrechion ar gyfer Cymorth Cristnogol ac i'r aelodau fu'n troedio'r strydoedd. Ychwanegwyd yn anrhydeddus at y gronfa gyda'r casgliad rhydd a dderbyniwyd yn oedfa'r ofalaeth ar Sul y Pentecost.

Anfonwn gyfarchion cynnes at Vernon Llewellyn a Jean Evans sy mewn cartrefi gofal. *(parhad tud.12)*

Cydymdeimlwn yn ddwys gydag Ifan a Ceris Davies yn eu profedigaeth o golli tad Ifan. Llawenhawn gyda'r un teulu gyda'r newyddion am yrfaoedd Tom a Harri, y meibion.

O bryd i'w gilydd roedd ymwelydd yn galw gyda ni; un tawel iawn oedd y Dr David Morris Davies. Roedd yn aelod ym Methesda, Llangennech ac yno y cynhaliwyd ei angladd ar 19 Mai. Roedd nifer y gynulleidfa a'r amrywiol deyrngedau yn tystio'n gyfoethog iawn i ddoniau a chymeriad y tyst tawel hwn. Cydymdeimlwn gyda'i deulu.

Ddydd Sul Mai 22 seiliodd ein gweinidog ei fyfyrdod treiddgar ar y cyfeiriadau at 'ymateb i alwad' sy ym mhennod gyntaf Jeremeia a Marc. Denwyd ein diddordeb gan ei sylwadau ar geisio rhannu cyfarchiad gyda rhedwyr eraill sy'n mynnu gwisgo clustffonau.

Y DINESYDD
Dewch i'n cefnogi

Sbario awr fach?

Beth am ddod i Gyfarfod Blynyddol y Dinesydd nos Lun, 13 Mehefin? [Bethel, Rhiwbeina, 7.15 y.h..] Cewch glywed sut mae pethau'n mynd, sgwrs ddifyr – a chyfle i gynnig awgrymiadau ar sut y gallen ni wella Papur Pobl Caerdydd a'r Fro. Dewch! Cewch groeso cyfeillgar.

HUW ROBERTS
CYFRIFYDD

Ymarferydd Profiant Awdurdodedig

Gwasanaeth personol, proffesiynol a dibynadwy

Profiant (Probate)

Treth Etifeddiaeth

Treth Eiddo

Gwasanaeth Ymweliad Cartref ar gael

029 2069 4524 07967 976854

huwrobertsaccountant@googlemail.com

www.huwrobertsaccountant.cymru

Sefydlwyd 1987



BARA CAWS

yn cyflwyno *Allan o Diwn* -

Emyr 'Himyrs' Roberts

Sioe yn llawn *nostalgia*, hwyl, dychan, canu a chwerthin yw cynhyrchiad diweddaraf Bara Caws – **ALLAN O DIWN** - a fydd yn dod i'r Sherman yng Nghaerdydd ar 30 Mehefin a 1 Gorffennaf (gan ddiweddu'r daith o gwmpas Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni). Mae'r cynhyrchiad gan Emyr 'Himyrs' Roberts, sy'n un o ddynwaredwyr gorau Cymru, yn dilyn ei hanes o fod yn ddisgybl 6ed dosbarth oedd 'allan o diwn' â'r byd a'i bethau, at sefydlu un o grwpiau eiconig yr '80au, y Ficar, a'i galluogodd i wireddu ei freuddwyd, ffeindio'i lais, a throi'n berfformiwr proffesiynol.

Cawn gyfarfod â wynebau cyfarwydd o'r sîn roc, ddoe a heddiw. Mi fydd yn dod ag atgofion yn ôl i'r rhai oedd yn ifanc yn yr 80au ac yn agoriad llygaid i'r rhai sydd rhy ifanc i gofio'r cyfnod!

Mi fydd yna fand byw yn teithio gyda'r sioe sydd yn cynnwys dau o feibion y dramodydd, sef Aled Emyr ac Ifan Emyr. Y trydydd cerddor yw Carwyn Rhys. Cyfarwyddir **Allan o Diwn** gan Betsan Llwyd, cyfarwyddwr artistig Bara Caws.

Mellten

LANSIO'R COMIC GWREIDDIOL CYMRAEG CYNTAF I BLANT ERS DEGAWADAU

Yn Eisteddfod yr Urdd yn Sir y Fflint fe lansiodd Y Lolfa gomic newydd sbon, *Mellten.* Wedi ei anelu at blant rhwng 7 ac 13 oed yn bennaf, dyma'r comic Cymraeg gwreiddiol cyntaf i'w gyhoeddi ers degawdau. Rhwng y cloriau ceir casgliad o straeon cyffrous, cymeriadau gwreiddiol, posau, jôcs a chystadlaethau. Bydd rhifyn newydd o *Mellten* yn ymddangos bob tri mis gyda'r ail rifyn ar gael ar 1 Fedi.

Mae modd prynu copïau unigol o *Mellten* neu gellir tanysgrifio am £8 y flwyddyn drwy'r wefan, ysgolion neu siopau llyfrau lleol.

Cwins

Cwins Caerdydd 20 – Ystrad Rhondda 12, 4 Mai

Disgleiriai pelydrau haul hwyrnos o haf cynnar uwchben Maes Diamond ar gyfer diweddglo'r tymor. Taerai sawl cefnogwr ffyddlon fod ambell i belydryn wedi syrthio'n uniongyrchol ar yr arwydd croeso newydd ac ysblennydd o ddwyieithog (a'r Gymraeg ar y brig!) sydd wedi ymddangos uwchben y maes parcio.

Eto i gyd, testun pryder oedd ein bod ni'n ceisio sicrhau'r pwyntiau angenrheidiol yn erbyn Ystrad Rhondda, o bawb – a oedd yn ail yn yr adran. Ymgyrch anodd oedd hi i'r Cwins eleni eto: cafwyd cyfres o anafiadau hir-dymor i chwaraewyr allweddol; datblygon ni'r arfer o ildio cais neu gic gosb yn union cyn hanner amser; a chollwyd sawl brwydr gan nifer fach o bwyntiau yn unig.

Chwaraewyd yr ornest ar y cae cefn. Braf, felly, oedd cael y fath gefnogaeth ar yr ystlys. Gêm gartref go iawn oedd hi a rhywbeth trydanol yn yr awyr. Yn y munudau cyntaf daeth i'r amlwg pam bod Ystrad Rhondda wedi cael tymor da: roedd cyflymder lein eu holwyr yn rhoi gwasgedd arnom ni o'r dechrau, a'u pac yn gryf ac yn egnïol. Ond yn raddol dyma'r Cwins yn cynhesu i'r dasg. Â bloeddiadau cefnogol y dorf yn eu clustiau, taclon nhw yn ffyrnig. Gwych o beth oedd gweld Richie Thomas, ein chwaraewr mwyaf profiadol, yn carlamu drosodd am gais, a chwaraewr y flwyddyn, Steff Elis, yn selio'r fuddugoliaeth gyda'i ail gais. Daeth rhwystredigaeth Ystrad i'r wyneb mewn sgarmes rydd a ddigwyddodd yng nghanol y dorf a lle roedd nifer o'n cefnogwyr hŷn wedi ymwroli yn lew a thawelu'r dyfroedd. Erbyn y diwedd, teg dweud bod Ystrad yn dîm a oedd wedi ei dorri. Roedd parhad arhosiad y Cwins yn yr adran gyntaf yn sicr.

Cawn wledda ar yr atgofion melys hyn dros yr haf. Rŷn ni yma o hyd. Ac mae perfformiadau diweddar y Cwins yn awgrymu y gall fod 'na ddyddiau gwell, yn wir, i ddod.

Merched y Wawr Bro Radur

Noson o Frethyn Cartref a gafwyd yng nghyfarfod y gangen ddechrau mis Mai. Croesawodd ein Llywydd, Eirlys Eckley, ddwy o'r aelodau i ddweud ychydig o'u hanes a'u cefndir, i ni gael dod i'w hadnabod yn well.

Cyflwynodd Gweneth Lloyd Jones hanes ei theulu a'i gwreiddiau yn ardal Harlech, Gwynedd a'u cysylltiad â'r Las Ynys, cartref Ellis Wynne, y Bardd Cwsg. Soniodd Gweneth am ei phrofiadau yn byw am gyfnod yn Seland Newydd, ac am fagu ei meibion yn ardal Bow Street, Ceredigion, cyn symud dair blynedd yn ôl i fyw i Dreganna ac ymuno â changen Bro Radur.

Wrth gyflwyno ei stori, awgrymodd y Ddr. Eirian Dafydd nad oedd wedi gallu magu gwreiddiau mewn unrhyw ardal arbennig gan iddi symud gyda'i theulu pan oedd yn ifanc, o Flaenau Ffestiniog i Lannerch-y-medd, Sir Fôn, lle roedd ei thad yn weinidog gyda'r Presbyteriaid. Ond yng Nghaerdydd y bu ei chartref ers dyddiau prifysgol yn yr 80au. Gyrfa yn y maes gwyddonol a gafodd Eirian a chyn ymddeol yn gynnar, roedd yn Uwch-athrawes yn Ysgol Gyfun Gymraeg Y Cymer.

Noson ddifyr oedd hon a da oedd i ni ddod i adnabod yn well ddwy o'n haelodau mwyaf ffyddlon.

Gweneth Jones, Eirlys Eckley ac Eirian Dafydd

O'R YSGOLION

Ysgol Plasmawr

Teithiau Pasg

Ymweliad â Berlin a Krakow

Yn ystod gwyliau'r Pasg, bu criw o staff a disgyblion yr adrannau Hanes, Addysg Grefyddol a Chymdeithaseg ar daith addysgiadol i Berlin a Krakow. Cafwyd profiadau anhygoel wrth ymweld â lleoliad cynhadledd Wannsee lle cytunwyd ar y 'Datrysiad Olaf'; canolfan y Gestapo a'r SS yn Berlin a chofebau i'r Holocost yn Berlin a Krakow. Uchafbwynt y daith i bawb oedd cael clywed hanesion dirdynnol un o oroeswyr y gwersyll yn Auschwitz Birkenau. Hi wnaeth ddod a'r hyn a welsom ac a glywsom dros y dyddiau blaenorol yn fyw i bawb.

Y disgyblion gydag un o oroeswyr Auschwitz

Ymweliad Sgïo i Awstria

Wrth ddechrau ar ein taith 27 awr i Flachau, Awstria, roedd fy nghyd-ddisgyblion a finnau (80 ohonom!) yn hynod gyffrous. Ar ôl sawl awr a sawl gorsaf gwasanaethau, cyrhaeddom ein gwesty. Bob nos, ar ôl diwrnod caled o sgïo, cawsom brydau bwyd tri chwrs bendigedig! Mi oeddwn wedi poeni o flaen llaw am gyflwr yr eira yno gan ein bod yn teithio'n hwyr yn y tymor sgïo. Ond heblaw am ambell ddarn o wair sych ac ychydig o 'slush', roedd yr eira yn weddol lwyddiannus! Roedd ein hathro sgïo yn hynod o garedig a doniol a chafodd ein grŵp ni, 'Y Beasts' amser bythgofiadwy. Taith anhygoel!

Heledd Powell a Manon Hammond (Bl 8)

Gwaith Elusennol 2015/16 - £5,258 hyd yn hyn...

Eleni, ein prif elusen oedd Ambiwlans Awyr Cymru. Cynhaliwyd Zwmbathon noddedig ym mis Hydref a chodwyd £3,262 gyda disgyblion Bl 7, 8 a 9 yn mwynhau'r dawnsio yn eu 'onesies'! Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi cefnogi sawl elusen arall, pob un ohonynt yn agos at unigolion yng nghymuned yr ysgol: *Epilepsy Action*, Sefydliad Calon Prydeinig, Achub y Plant, Ysbyty Felindre a *Mermaids UK*. Yn ystod gwyliau'r Pasg, rhedodd Mrs Bethan Karroumi a Mrs Rhian Hopkins Farathon Paris dros Tŷ Hafan. Y mis nesaf, bydd Miss Catrin Edwards yn teithio draw i Lesotho, De Affrig, i ymweld ag Ysgol Moshoeshoe II. Bwriadwn godi arian ar gyfer prynu adnoddau i'r ysgol. Tybed, felly a gyrhaeddwn gyfanswm o £6,000?

Sian-Elin Griffiths

ADDYSG GYMRAEG – RHAGOR O NEWYDDION DA

Ers erthygl mis Ebrill mae'r sir wedi penderfynu o blaid symud Glanmorfa i adeilad newydd (dwy ffrwd) ar safle'r Maltings a symud Pencae i dalgylch Glantaf ac wedi cyhoeddi niferoedd mynediad ar gyfer mis Medi o'r rownd cyntaf o'r broses. Roedd y cynigion yn rownd 2 wedi mynd mas ganol mis Mai.

Mae 499 wedi cael mynediad i'r tair ysgol uwchradd gan adael 111 lle gwag; mae deg wedi methu â chael lle ym Mhlasmawr - yr unig ysgol lawn - ac yn apelio, mae'n debyg. Mae gwasgfa am le yn yr ysgolion uwchradd Saesneg (Cardiff High, Radyr a Llanisien yn arbennig) a felly mae rhai rhieni am symud eu plant o'r sector Saesneg i ysgolion Cymraeg (Glantaf a Bro Edern). Dyw hyn ddim wedi digwydd o'r blaen a felly does dim trefn i'w cymhwyso trwy gwrs trochi i'w chael. Mae'r sir yn derbyn taw eu cyfrifoldeb nhw fydd trefnu cymhwyso.

Yn y sector cynradd mae 694 wedi cael cynnig lle gan adael 132 i ddisgwyl lle, gan gynnwys 16 sydd wedi methu er yn byw y tu mewn i dalgylchoedd Glanmorfa (4), Nant Caerau (7), Pen y Pil (4) a Phencae (1). Yr ysgolion mwyaf poblogaidd lle mae plant wedi'u gwrthod yw Treganna (29), Nant Caerau (25), Pwll Coch (16), Melin Gruffydd (14), Y Berllan Deg (13) a Phencae (12). Yn amlwg mae llawer o'r ceisiadau gan blant sy'n byw tu fas i dalgylch yr ysgolion hyn.

Doedd dim modd cynnwys Ysgol Hamadryad y tu mewn i'r opsiynau gwreiddiol ond, gyda'r llythyron a gynigiai le, anfonwyd llythyr yn cynnig yr opsiwn newydd ac mae'n bur debyg y bydd llawer sydd wedi methu yn derbyn y cynnig newydd sydd wedi denu diddordeb llawer.

Mae pob rheswm i obeithio y bydd y nifer sy'n cyrraedd ysgol Gymraeg eleni yn cynyddu i'r 730au neu'r 740au.

Michael Jones

Ysgol y Wern

Gwyddbwyll

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn MegaFinal Gwyddbwyll De Cymru sef Rhys Matthews, Jonathan Davies, Tom Davies, Carys Davies, Dafydd Richards, Charley Attwood, Elis Hurt, Dylan Barr a Reggie Burgess. Fe fydd Rhys Matthews, Jonathan Davies a Reggie Burgess yn mynd ymlaen i'r GigaFinal ym Manceinion! Da iawn chi.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir y Fflint 2016

Llongyfarchiadau i Mari Fflur Thomas, Blwyddyn 2 a ddaeth yn drydydd dros Gymru yng nghystadleuaeth cyfansoddi barddoniaeth Blwyddyn 2 ac iau.

Llongyfarchiadau i Griffydd Evans, Blwyddyn 6 am ennill y gystadleuaeth dylunio 2D Blwyddyn 6 ac iau dros Gymru eleni yn adran Celf a Chrefft yr Urdd. Bydd gwaith Griff yn rhan o'r arddangosfa yn Eisteddfod Sir y Fflint eleni.

Cysylltiadau Tramor

Croesawyd dwy athrawes o Ffrainc i'r ysgol. Buont yn ein cwmni am ddau ddiwrnod. Cyfle gwych i gryfhau ein cysylltiad ag ysgol yn ardal Bordeaux.

Bu dwy o'r staff ar ymweliad â Gwlad yr Iâ yn ddiweddar. Fe ddaethant yn ôl yn gyffrous a llawn syniadau ar gyfer ehangu profiadau ein plant yn Ysgol y Goedwig.

Disgyblion Ysgol y Wern sy'n aelodau o dîm hoci yr Eglwys Newydd

Chwaraeon

Da iawn i dimau hoci'r ysgol yn nhwrnament Chwaraeon Caerdydd. Llongyfarchiadau i'r tîm buddugol.

Llongyfarchiadau i dim pêl-droed y merched a'r bechgyn am ddod yn ail a thrydydd yn nhwrnament Chwaraeon Caerdydd.

Da iawn i dîm chwaraeon Bl5 a Bl6 a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth 'Chwaraeon Cynhwysedd' Sport Cardiff. Fe ddaeth y tîm yn ail – llongyfarchiadau!

Liz Harewood

Ysgol Nant Caerau

Gwasanaeth HWB

Cyn y Pasg daeth Richard o Hwb i'r ysgol i sôn am gystadleuaeth ysgrifennu stori 'Gangster Granny' gwreiddiol. Ar ôl y Pasg dychwelodd gyda Tracey (gweithwraig o'r cartref henoed Regency House) i gyhoeddi enw'r buddugwyr. Enillodd llawer o blant wyau Pasg bach ond cafodd Cai a Jayden, yr enillwyr, wyau anferthol! Da iawn chi - roedd yr henoed wedi mwynhau eich storïau chi yn fawr!

Rygbi

Cafodd y tîm rygbi gyfle i chwarae ar Barc yr Arfau am y tro cyntaf erioed. Llongyfarchiadau mawr i Gruffudd am sgorio cais cyntaf yr ysgol ERIOED! Chwaraewyd 7 gêm ac fe enillwyd 3 a chafwyd un gêm gyfartal. Am brofiad gwefreiddio!

Techniquest

Ar 18 Mai daeth dyfeisiadau gwyddonol ar ymweliad â'n hysgol o gwmni Techniquest. Roedd angen i ni ddatrys problemau - roedden nhw yn lot o hwyl er bod rhai yn heriol tu hwnt!

Y DIGWYDDIADUR

Mehefin

Mawrth, 7 Mehefin
Mae Cylch Ti a Fi newydd yn cychwyn yn Nhre-biwt. Er mwyn dathlu'r achlysur a chodi ymwybyddiaeth, cynhelir prynhawn hwyl rhwng 2.30 – 5 pm yn y Ganolfan Yemeni, Alice Street, Tre-biwt. Manylion pellach: Lowri Bell ar 07967 508471 neu Iola Jones ar 01970 639639 neu 07841 452 607.

Sadwrn, 11 Mehefin
Cymdeithas y Beibl yn cynnal bore coffi yng nghapel Salem, Heol y Farchnad, Treganna rhwng 10.30 a 12.00. Stondinau cacennau a phlanhigion. Mynediad am ddim.

Mawrth, 14 Mehefin
Merched y Wawr, Caerdydd. Sgwrs gan y Dr Gethin Matthews am y Rhyfel Byd Cyntaf, am 7.30 pm yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Cyncoed Road. Os oes gennych unrhyw luniau neu hanesion sy'n berthnasol i'r cyfnod, bydd Gethin yn falch iawn i'w gweld. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach: 029-2075-4379.

Sadwrn, 18 Mehefin
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sy'n dysgu Cymraeg. 'Bore Siarad' yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4DX. Croeso cynnes i bawb.

Sadwrn, 18 Mehefin
Bore Coffi a Chlonc ar gyfer dysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant St Andreas, CF10 3DD, rhwng 10.30 a 12:00. Cyfle i ymarfer siarad Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol.

Sadwrn, 18 Mehefin
Gŵyl Fach y Fro 2016, rhwng 11.30 am a 7.00 pm ar Ynys y Barri. Fe'i trefnir gan Fenter Bro Morgannwg. Ceir manylion llawn yr ŵyl ar y wefan hon:
http://bit.ly/GwylFachyFro16

Llun, 20 Mehefin
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Cyfarfod Blynyddol, a chwis gydag Idwal a Mair Hughes, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 pm.

Mercher, 22 Mehefin
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Te mefus ac adloniant, yn festri Capel Minny Street am 2 pm.

Gwener, 24 Mehefin – Sul, 26 Mehefin
Cyfres Hwylio Eithafol ym Mae Caerdydd. Gellir gwylio'r rasio rhwng 2pm a 5pm bob dydd, tra bydd y prif weithgareddau adloniant ar y lan yn cael eu cynnal rhwng 11:30am a 6 pm ddydd Sadwrn a dydd Sul a'r cwbl am ddim. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.extremesailingseries.com a www.gwyl-caerdydd.com.

Sadwrn, 25 Mehefin
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach. Yr elw er budd elusen y flwyddyn, sef Canolfan Maggie, Ysbyty Felindre.

Sadwrn, 25 Mehefin – Sul, 3 Gorffennaf
Tafwyl 2016. Ceir rhaglen lawn yr ŵyl ar y wefan hon:
http://bit.ly/TafwylIssuu

Iau, 30 Mehefin a Gwener, 1 Gorffennaf
Allan o Diwn a berfformir gan Theatr Bara Caws. Mae'r cynhyrchiad gan Emyr 'Himyrs' Roberts, sy'n un o ddynwaredwyr gorau Cymru, yn dilyn ei hanes o fod yn ddisgybl 6ed dosbarth oedd 'allan o diwn' â'r byd a'i bethau, at sefydlu un o grwpiau eiconig yr 80au, y Ficar. Manylion pellach ar 029 20646900 neu wefan Theatr y Sherman http://www.shermancymru.co.uk/hafan/.

Gorffennaf

Sul, 10 Gorffennaf
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Cymanfa Ganu yng nghapel Bethel, Maesyderi, am 3 pm.

Sadwrn, 16 Gorffennaf
Bore Coffi a Chlonc ar gyfer dysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant St Andreas, CF10 3DD, rhwng 10.30 a chanol dydd. Cyfle i ymarfer siarad Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol.

I anfon gwybodaeth
i'r Digwyddiadur
gweler manylion ar dud. 3

Merched y Wawr Caerdydd

Yn dilyn y cyfarfod blynyddol ar nos Fawrth 10 Mai, bu pedair aelod o'r gangen yn sôn am eu cefndir a sut y daethon nhw'n rhugl eu Cymraeg. Roedd gan Penny, Lynette, Trish a Maggie straeon gwahanol iawn am y llwybrau a'u harweiniodd nhw, o fannau yn Lloegr yn achos ambell un, i allu cyfathrebu yn Gymraeg. Clywyd am athrawon ysgol yn ysbrydoli, am diwtoriaid da ac am gyrsiau yn Llambed, Abertawe a Choleg yr Iwerydd. Bu sôn am ddefnydd gwrando a dynwared wrth deithio yn y car ac am y cymorth a geir mewn grwpiau anffurfiol.

Croesawyd hefyd i'r cyfarfod dair dysgwraig a ddaeth am y tro cyntaf i gyfarfod y gangen, sef Lesley, Sue a Cathy, sy'n mynychu'r dosbarth yng Nghapel Ararat. Roedd y tair yn barod iawn i rannu eu hanes ac roedd pawb oedd yn bresennol yn eu hedmygu ac yn gobeithio y byddan nhw'n dod eto. Diolch yn fawr i Shân Morgan am drefnu a llywio noson ardderchog.

rhes gefn: Cathy, Sue a Lesley;
rhes flaen: Penny, Maggie, Trish a Lynette

Rhif: 163



Ar Draws

1 'Os gwelir un pererin
Mor ----- ar ben ei daith' (DM) (4)
4. Cynnyrch bardd yw'r pryfyn bach, y ddoe digalon a'r sêt wag (7)
8. Cloddwyr hanes (12)
9. Negeswraig yn plygu hances Edward bach (8)
10. Deg di-waith ar yn ail yn gwywo (4)
12. Yr Aelod Cynulliad ola'n bod yn negyddol (6)
14. Gwamalrwydd coginio cig oen (6)
16. Cael egni o fryn niwlog (4)
17. Cwcw'n dal planc caerog (8)
20. 'Eist heibio im ----- ----- ----
Â'th dafod grasboeth ar dy foch' (IDH) (3,6,3)
21. Arferid hel rhain ar nos Sul (7)
22. Un gwylaidd yn dechrau swagro wedi impio'r lelog (4)

I Lawr

2. Ffrwythau – rhai Mair efallai? (5)
3. Ai amgen yw gwala hon? (8)
4. Poeni ynghylch 500 aderyn (6)
5. Hen sir yn colli'i phen yn diota (4)
6. 'Dal fi fy Nuw, dal fi i'r lan,
'N ----- dal fi lle'r wy'n wan' (WW) (7)
7. Tocia'r eithin bron i gyd â'r llyfnwr sy'n cynhyrchu'n dda (9)
9. Y crys hyn fu rywdro yn gyffrous (9)
11. Torri ffust un o'r ffodus (8)
13. Cyfryngwr mewn tîm (7)
15. Can mab o Gymru a deg o Loegr yn arwain y gad (6)
18. Cynyddu tyrfa os yn dechrau'n iach (5)
19. ' "----- Fi yn dyfod",
Llefai'r Meichiau gwiw' (TR) (4)



Enillydd Croesair Rhif 161
Zohrah Evans, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd

Atebion Croesair Rhif 161

Ar Draws:1. Ysgerbwd 6. Sicr 8. Cnwc 9. Ysgogiad 10. William Morgan 11. Boda 13. Dacw 17. Daeargrynfeydd 20. Pistyllio 21. Alun 22. Adar 23. Gwyrthiol

I Lawr: 2. Sinsir 3. Encilio 4. Bwyta 5. Dygymod 6. Segur 7. Claear 12. Asgellog 14. Cyfraith 15. Cariad 16. Dymuno 18. Antur 19. Yfory

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Gorffennaf 2016.
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Côr ac unawdwyr Ysgol y Wern, Llanisien, gynhaliodd gyngerdd blynyddol y Gymdeithas eleni er budd Tŷ Maggie, Ysbyty Felindre. Daeth tyrfa ynghyd i Gapel Bethel, Rhiwbeina, nos Lun, 16 Mai, yn rhieni, yn fam-gu a thaid ac yn aelodau'r Gymdeithas, a brwd oedd y gymeradwyaeth i ddoniau amrywiol y disgyblion dan gyfarwyddyd eu hathrawes, Mair Long.

Yn llawn afiaith a llawenydd, cyflwynodd y côr, a oedd yn geirio'n eglur, eitemau ag iddyn nhw naws gwahanol. Cafwyd emynau fel *Dod ar fy mhen dy sanctaidd law,* ynghyd â *Sosban Fach* a darnau o sioeau cerdd, yn ogystal â chaneuon â bît Affrica a Jamaica iddyn nhw a hefyd rap.

Clywyd cyflwyniad gan y Parti Cerdd Dant. Bu unigolion dawnus yn canu alawon gwerin a dilyniant o ganeuon o'r sioe *Nia Ben Aur* a chân o *Charli a'r Ffatri Siocled*. Bu Osian yn canu'r gitâr, Remy ar y delyn a'r soddgrwth, ac Iwan ar y ffidil.

Noson oedd hon i ryfeddu at ddawn y disgyblion ac ymroddiad athrawon Ysgol y Wern. Falmai Griffiths fu'n talu diolch a chyflwynodd Sally Davies dorch o flodau i Mair Long.

Lansio Gŵyl Fach y Fro 2016

Fe fydd Gŵyl Fach y Fro yn dychwelyd unwaith eto i Ynys y Barri eleni – ddydd Sadwrn 18 Mehefin. Ar ôl sefydlu'r ŵyl y llynedd, a chyda diolch am gefnogaeth parhaus gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Bro Morgannwg, fe fydd yr ŵyl undydd yma'n rhan bwysig o raglen ddigwyddiadau haf y Cyngor eto eleni.

Yn perfformio yn yr Ŵyl fydd Sŵnami, Sorela, Meic Stevens, Wonderbrass, Hanna Morgan (cantores leol a chyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Bro Morgannwg) a Lost in Chemistry (band ifanc o'r Barri, ac enillwyr Brwydr y Bandiau C2/Maes B 2015). Bydd cannoedd o blant o ysgolion Cymraeg y sir hefyd yn camu i'r llwyfan i berfformio yn ystod y diwrnod.

Mae nifer o elfennau newydd wedi eu hychwanegu at yr ŵyl eleni, fel stondinau cynnyrch a chrefftau Cymreig gan ddarparwyr lleol, yn y cytiau traeth trawiadol ar y promenâd. Fe fydd yno far, gyda chwrw arbennig yn cael ei greu ym mragdy lleol Tomos & Lilford i ddathlu'r digwyddiad, a bwyd gan Ffwrnes Pizza a Slow Pig.

Bydd adloniant stryd a gweithdai gyda'r perfformwyr syrcas NoFit State; gweithdai ac arddangosfeydd Cardiff Arts Collective; Sioe, Amser Stori a Helfa Drysor gyda chyflwynwyr a chymeriadau Cyw; bwth lluniau GuestWho; a gweithgareddau amrywiol gan bartneriaid Cymraeg yr ardal gan gynnwys Canolfan Cymraeg Bro Morgannwg, Mudiad Meithrin ac Adran Chwaraeon yr Urdd.

Mae Gŵyl Fach y Fro yn ddigwyddiad rhad ac am ddim, mewn lleoliad unigryw, cyhoeddus a phoblogaidd ar Ynys y Barri, gan ei wneud yn ddigwyddiad hynod hygyrch i bawb; boed yn siaradwr Cymraeg, neu'n cael eu profiad cyntaf o'r iaith a'r diwylliant.

Bydd modd i ymwelwyr wirio'r rhaglen a'r wybodaeth ddiweddaraf am Gŵyl Fach y Fro ar wefan, tudalen Facebook a Twitter Menter Bro Morgannwg: www.menterbromorgannwg.cymru, Facebook: Menter Bro Morgannwg Twitter: @MIBroMorgannwg

---

Pêl-droed yn creu cyffro yn Yr Hen Lyfrgell

Mae mis Mai wedi gwibio heibio gyda'r ganolfan yn parhau i brysuro. Braf oedd croesawu pymtheg o wirfoddolwyr brwdfrydig i ddiwrnod hyfforddiant oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan Visit Cardiff am dwristiaeth yn y ddinas, a Phrifysgol Caerdydd am hanes y Gymraeg yn y ddinas a rhannu'r Gymraeg gydag eraill. Rydym yn ddiolchgar iawn am barodrwydd ein gwirfoddolwyr i'n helpu mewn digwyddiadau i dywys a rhoi gwybodaeth i ymwelwyr.

Un o brif ddigwyddiadau'r mis oedd Dydd Sadwrn 'Pop-yp' ein Cegin Bar sydd wedi ei henwi'n 'Amser' erbyn hyn. Gyda stondinau gan Kiti, O Gân i Gelf, Tomos a Lilford a mwy roedd lliwiau, lluniau, blasau ac aroglau di-ri yn yr aer. Diolch hefyd i Mei Gwynedd a Huw Aaron am gynnal digwyddiadau *ukulele* a chartŵn i blant.

Mae thema pêl-droed wedi bod i fis Mai gyda'n sesiwn swopio sticeri bob dydd Sadwrn yn profi'n boblogaidd iawn i blant ac i oedolion. Un o uchafbwyntiau'r calendr oedd ein Noson yng Nghwmni Osian Roberts, is-reolwr tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru ac Ian Gwyn Hughes, Pennaeth Cyfathrebu CBD Cymru, gyda Dylan Ebenezer yn holi am hynt a helynt y chwaraewyr wrth baratoi am gystadleuaeth pêl -droed fwyaf Cymru ers 1958. Dewch i gefnogi ein tîm cenedlaethol gyda ni; byddwn yn dangos holl gemau'r gystadleuaeth Euro 2016 ar sgrin fawr ein Cegin Bar Amser.

Parhau mae'r rhaglen brysur o weithgareddau a chyngherddau gyda nifer o ddigwyddiadau ffrinj gŵyl i Tafwyl yn cael eu cynnal yma ddiwedd Mehefin ac ar ddechrau Gorffennaf. Yn eu plith mae taith iaith Jon Gower, arddangosfa ffotograffiaeth, noson rwydweithio Cwlwm Busnes a nosweithiau DJs. Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan neu cymerwch olwg ar raglen Tafwyl am eu hamserlen gyflawn o ddigwyddiadau ledled y ddinas. *Marged Eiry Rhys*

Y Gyfres Hwylio Eithafol - Cyffroi Ffans ym Mae Caerdydd

Mae'r Gyfres Hwylio Eithafol wedi bod yn denu nifer o ffans am y pedair blynedd diwethaf, ac yn ystod Blwyddyn Antur Cymru mae rhai o hwylwyr gorau'r byd yn dychwelyd i Fae Caerdydd am y *grand prix* rhwng 23 a 26 Mehefin. Dyma fydd Act 3 y cylchred rhyngwladol eleni, yn dilyn digwyddiadau a gynhaliwyd eisoes ym Muscat, Oman a Qingdao, Tsieina, gyda thîm Prydain, Academi BAR Land Rover, yn y pedwerydd safle ar hyn o bryd, y tu ôl i Oman Air, Alinghi a Thîm Hwylio Red Bull.

Eleni, gall pobl sy'n gwylio o amgylch y Bae ddisgwyl mwy o gyffro nag o'r blaen wrth i'r cychod hydroffoil hedfan dros y dŵr wrth iddynt fynd benben â'i gilydd, ar brydiau dim ond metrau i ffwrdd o lannau'r dŵr, sy'n golygu bod y rasio'n fwy heriol i'r criwiau, ac yn fwy cyffrous i'r gwylwyr.

Bwytai Merch y Ddinas

"y baned Gymreig sydd wrth galon y cwmni"

Lowri Haf Cooke

Bara Menyn

Nid nepell o'r Castell, ar Stryd Womanby, lleolir caffi bendigedig Bara Menyn. Fe agorodd ym mis Chwefror yn y Castle Emporium, gyferbyn â Chlwb Ifor Bach, yn ganlyniad i lafur cariad Catrin Enid, o Geredigion. Fe'i magwyd yn Llanarth, a bu'n bennaeth yr adran Ddrama a'r Cyfryngau yn Ysgol Gyfun Garth Olwg tan yn ddiweddar. Ond ar ôl priodi yn San Francisco a phrofi *road-trip* i New Orleans, rhoddodd ei bryd ar ddilyn gyrfa ym myd bwyd.

Mae cynildeb y fwydlen yn adlewyrchu ethos bwyd Catrin, o weini bwyd syml wedi'i baratoi'n dda - fel brecwast Cymreig neu gawl cig oen a llysiau'r tymor. Ceir hefyd sawl tro ar y clasur 'caws pob', gan gynnwys madarch a chloron, neu *truffles*. Daw'r cynhwysion i gyd o farchnad Glan yr Afon, tafliad carreg i ffwrdd, yn llysiau Blaencamel, Cig Lodor o Drefdraeth a chigach *charcutier*.

Y baned Gymreig sydd wrth galon y cwmni, wrth i Catrin dalu teyrnged i'w Mamgu. Gan ddyheu am gael gweini te dail rhydd traddodiadol, fe brynodd Catrin gwmni te Hiraeth. Cyfunir dail arian Java â math 'brecwast' Yunnan, i gynhyrchu te a blas hynod gyfoethog. Ac i'r rheiny sy'n goffi-garwyr o fri, mae'r Welsh Coffee yn taro deuddeg bob tro. Fe gewch chi baned syfrdanol o dda.

Fel rhan o ddathliadau Tafwyl, cewch brofi Bara Menyn ar daith, wrth i Catrin gynnal caffi ym marchnadoedd Rhiwbeina, Glan yr Afon a'r Rhath.

Bara Menyn, Castle Emporium, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1BS (07814033760)

***Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer) £9.99**

Cyfreithwyr.Com

Yr unig le i chwilio,
yn hollol rhad ac am ddim,
am gyfreithwyr o safon
sy'n cynnig gwasanaeth
yn y Gymraeg.

02920 829118
www.cyfreithwyr.com

BAY Resourcing Teaching Agency
STAFF YSGOLION CYFRWNG CYMRAEG A SAESNEG
Athrawon Cynradd, Cynorthwyydd Dosbarth, a mwy.
Angen ar frys ar draws Cymru - staff o ddydd i ddydd a hir dymor.
FFONIWCH 02920 494 560

CHWARAEON

Chwaraewyr Dan 7 Oed

Diwrnod Gwobrwyo
Clwb Rygbi Ieuenctid Cwins Cymraeg (CRICC) Caerdydd

Yn ystod mis Mai cynhaliwyd diwrnod gwobrwyo CRICC. Yn y llun mae carfan Dan 7 yn gwisgo eu medalau a Genevieve Miles, Melin Gruffydd yn arddangos Tlws yr Hyfforddwr ac Owen Howard, Y Wern darian Chwaraewr y Flwyddyn.

Chwaraewr y flwyddyn CRICC, Caerdydd 2015-16: Daniel Thomas

Enillwyr am y tymor	Chwaraewr y Flwyddyn	Tlws yr Hyfforddwr
< 8 Melyn	Josef Fernandez	Gruffydd Davies
< 8 Gwyrdd	Willaim Adams	Cory Phillips
< 9 Coch	Thomas Payne	James Harding
< 9 Glas	Joelle Crocker	Joseph Gill
< 10	Tomos Fenner	Iestyn Jones
< 11	Thomas Meek	Oscar Walker
< 12	Dyfan Thomas	Aron Evans
< 13	Joshua Atkinson	Morgan Baos
< 14	Elis Harrop-Griffiths	Osain Lewis
< 15	Cai Davies	Harri Metcalfe

Mwy am y Cwins ar dud. 13